Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 1498 (Cy. 274)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) (Diwygio) 2019

Gwnaed - - - -	*10 Rhagfyr 2019*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*12 Rhagfyr 2019*
Yn dod i rym - -	*15 Ionawr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1(3) a (6) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

(**1**) 1967 p. 84 ("Deddf 1967"). Amnewidiwyd adran 1 o Ddeddf 1967 gan adran 19(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29). Amnewidiwyd adran 1(3) o Ddeddf 1967 gan adran 194(1) a (4) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) ("Deddf 2009"). Gweler adran 1(9) o Ddeddf 1967 am ddiffiniad o "appropriate national authority". Mewnosodwyd adran 1(9) gan adran 194(1) a (5) o Ddeddf 2009 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/760. Diwygiwyd adran 22(2) o Ddeddf 1967, sy'n cynnwys diffiniad o "the Ministers", gan adrannau 19(2)(d) a (3), a 45 a 46 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), a Rhan 2 o Atodlen 5 iddi ac erthygl 4 o O.S. 1999/1820, a pharagraff 43(1) a (12) o Ran 1, a Rhan 4, o Atodlen 2 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 1(3) a (6) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddir o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)): gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. I'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran parth Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 1(3) a (6) o Ddeddf 1967 i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).